

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 3ydd Rhagfyr 2025

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, G Davies, S Evans, E Lewis, P Jones a G Mitchell (Powys)
2 aelod o'r cyhoedd

Ymddiheuriadau - E Davies

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau – Dim

Datganiadau diddordeb – Dim

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 5ed Tachwedd 2025

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Dealltwyd fod Hafren Dyfrdwy wedi rhoi sylw i'r meter sydd yn iawn ond bod y cyfathrebiad digidol rhyngddo a'r gweinddiaeth ar fai. Cytynwyd i osod arwyddion o gwmpas yr adeilad yn gofyn i pobol fod yn fwy ystyriol. Ysgrifenyddwyd llythyr o ddiolch i Jo ac Andy.
2. Nawdd Windfall – Mae'r gwaith cyfreithlon i paratoi cytundeb ffurfiol efo'r tirlfeddiannwr wedi cychwyn. Derbynyddwyd anfoneb gan cyfreithiwr y tirlfeddiannwr sydd dipyn yn fwy na'r amcangyfrif yn y cais gwreiddiol. Clerc i fynd yn ôl i Windfall i ofyn am estyniad i'r nawdd.
3. Grŵp casglu sbwriel – Fydd y sesiwn nesaf ar y 6ed o Rhagfyr
4. Cyfrifion terfynol a'r awdit llawn – Mae Awdit Cymru wedi danfon adroddiad ar y cyfrifion gyda rhai amodau ac argymhellion. Mae'r Clerc yn dal i aros am eglurhad am rhai o'r sylwadau cyn eu gyhoeddi.
5. Adroddiad bioamrywiaeth – S Reast a F Cauley wedi gorffen yr adroddiad ond yn aros am lluniau ychwanegol gan Sbwriel a Sbri cyn ei ddanfôn i Un Llais Cymru
6. Parcio ar y cae mawr a cyflenwad cerrig – I Edwards i edrych allan am cyfle i gasglu cerrig dros ben o safle waith Network Rail i'w ddefnyddio ar y cae -
7. Adroddiad gan Powys ynglyn a'r stafell snwcer – Mae yna gynllyn ar y gweill i rhoi gorchudd newydd ar lawr. Cyflwynwyd dyfnbris gan R Ashton a cadarnhawyd fydd y clwb yn talu am cyfran ohonno ac yn gwneud cais i'r Cronfa Fferm Wynt am rhan hefyd
8. Defnydd o iard y Cyngor – Cytynwyd i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn mis Ionawr 2026 i casglu ymatebion i'r syniad o gwneud cais i brynu ac i ddatblygu'r iard ac ail agor gorsaf trênn. Clerc i drefnu
9. Cyflymder traffig wrth cyffordd Talerddig a golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 ar gyfer plant yn dychwelid o'r ysgol fin nôs – Gosodwyd teclynau mesur cyflymder traffig mewn tri man; cyn ac ar ôl y cyffordd ac ar y ffordd fach. Disgwylir y canlyniadau gan Asiantaeth Cefnffyrdd

10. Cynnal llwybrau cyhoeddus – Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan Adran Llwybrau Cyhoeddus Powys am y llwybr rhwng Llan a Bont, byddant yn gosod arwyddion newydd. Mae'r trefniantwr yn ymwybodol o hyn a mewn cytundeb. Ysgrifenydd llythyr i perchnogion Red Lion Stables i ofyn os ydynt am rhoi giat newydd ar ben y llwybr ar ei tir nhw
11. Tail yn blocio hen ffordd Pant Glas i pont Bel – I Edwards i tynu lluniau
12. Arolygu trefniadau rhwng y Cyngor a Claerwen yn Bont – S Reast wedi gwneud ymholiadau gyda'r cyfreithiwr – dim diweddariad
13. Sietyn yn Llan – Mae perchnogion Ael-y-Bryn wedi cadarnhau mae nhw fydd yn torri'r coed
14. Llifogydd ym Maes yr Efail – Mae Tîm Draeniau Powys yn mynd i edrych ar y draen ym Maes yr Efail. Clerc i helpu perchennog Nant Siriol i trefnu caniatad am adnewyddu'r draen trwy'r ardd
15. Ffens yn Bont ar tir Dŵr Cymru – Clerc i ofyn eto iddo cael ei drwsio
16. Adeilad yn Badgers Glade wedi newid ei ddefnydd – Mae'r adeilad a fuodd yn bloc toiledau rwan yn cael ei defnyddio fel tŷ. Clerc wedi derbyn mwy o eglurhad am y lleoliad a'r manylion penodol i fynd ar yr adroddiad i Powys
17. Cyfngiadau 7.5 tunell ar ffordd Pandy yn Bont – Mae G Mitchell wedi gwneud ymholiadau efo Powys i weld os gellir eu rhoi yn ôl neu o leia, arwydd yn dweud nad ydy'r ffordd yn addas i cerbydau mawr. Fydd cynrichiolydd o Powys yn ymweld a'r safle
18. Hysbysfwrdd ym Mhennant - Rhaid ystyried cyllideb i prynnu un newydd yn ystod cyfarfod mis Ionawr pan fydd y presept yn cael ei drafod
19. Cyffordd ar yr A470 – Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi gwneud arolwg o cyflymder traffig ac ymddygiad cerddwyr wrth cyffwrdd A470 a'r B4518 ac wedi dod i'r canlyniad bod angen croesfan rhywle agos. Clerc wedi gofyn os fydd hyn yn golygu gostyngiad yng nghyfyngiadau cyflymder ar yr A470 – dim diweddariad
20. 'Charging point' ym maes parcio'r pentref – Clerc i wneud mwy o ymholiadau am yr un yng Ngharno ac am strategaeth Powys
21. Sul y Cofio – Cafwyd gwasanaeth ar y 9fed o Tachwedd a casglwyd £154 ar gyfer Help the Heroes
22. Ffordd Pen Graig ac arwydd 'Preifat' – Nid yw'r ffordd yn un preifat yn swyddogol ond dealltwyd fod y trigolion wedi gosod yr arwydd i atal pobol rhag parcio yno a rhwystro mynediad – Clerc a G Mitchell i edrych ar mapiau ac i drafftio llythyr i'r perchnogion
23. Pont Cruignant – Railings ddim digon hir – Clerc i adrodd i Powys
24. Diweddariad ar Deffibrilwyr – Dywedodd I Edwards fod angen batris newydd i'r un yn Llan ac fod yna gyfle i gwneud cais am offer newydd am ddim, Cytyndwyd y buasai wal y toiledau yn lleoliad da i diffibrilwr arall. Cynnigwyd y gellir i Edwards gwario hyd at £250 am nwyddau yn ystod un mis heb cadarnhad ychwanegol gan y Gronfa Fferm Wynt
25. Statws y byngalo ar ffordd Bryneinty – Dealltwyd fod Powys am prynnu'r tŷ a'i osod ar gyfer pobol dan gofal y gwasanaethau cymdeithasol
26. Arwyddion traffig ffarm i Bont, Llan a Talerddig – Clerc i wneud ymholiadau er dealltwyd nad ydy Powys yn cefnogi gosod mwy o arwyddion fel rheol gan ei fod yn cael eu anwybyddu gymaint
27. Arwydd i'r Fan Post – Clerc wedi ei osod yn ôl
28. Paratoi biniau halen/grit – Clerc wedi cydlynnu efo tîffeddianwr yn Bont i symud y bin halen
29. Bin yn y cae chwarae – Bin yn orlifo, yn amal gyda gwastraff domestig. Cynnigwyd cael gwared a fo yn llwyr ond nid oedd y syniad yn boblogaidd gan mae dyna'r unig bin sydd yn weladwy o fewn y parc. Dealltwyd fod Powys yn mynd i newid yr hen biniau a gosod rhai newydd gyda un hanner ar gyfer ailgylchu

30. Trip i'r Senedd – Adroddwyd F Cauley hanes y profiad o wrando ar ddadl ynglyn a gwasanaethau iechyd yn y Senedd. Roedd yna cefnogaeth dros pob plaid ar gyfer cadw'r uned strôc ym Mronglais ond dim addewid cadarn y fydd hyn yn digwydd. Fuodd F Cauley a'r Clerc yn mynychu cyfarfod ar-lein ar yr un pwnc gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda ond dim ond y nhw ac un cynrichiolydd o Cyngor Corris cymerodd rhan o Canolbarth Cymru cyfan.
31. Arwydd llwybr cyhoeddus i Newydd Fynyddog – Clerc i adrodd yr angen i Powys
32. Golau yn Llan wrth yr Hen Ysgubor ddim yn gweithio – Dealltwyd fod rhan fwyaf o'r goleuadau yn Llan yn nawr yn llai llachar (i amddiffyn bywyd gwyllt y nôs) ar bwrpas nid ei fod yn gamweithredol
33. Cylfert wrth tŷ Ystradfawr anghen sylw a'r ffordd wrth Ystrad Fach yn dirywio – Cafodd y Clerc mwy o fanylion ynglyn a lleoliad y problemau er mwyn adrodd i Powys
34. Coed rhwng Station Garage a Pont Brics angen eu thorri - Cafodd y Clerc mwy o fanylion ynglyn a lleoliad y problemau er mwyn adrodd i Network Rail
35. Gwern y Bwlch – Cafodd giât ei adael ar agor ar ôl damwain ar y 26ain o Hydref – Cyтынwyd ar draft o lythyr i ddanfôn i'r heddlu i ofyn beth yw'r trefniadau yn y fath sefyllfa

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont, Llan, Talerddig a Llanbrynmair	Ie	Prynwyd 'cut out' plastig o heddwas gyda camera cyflymder. B Jones i rhoi rhyw fath o atgyfnerthu ar ei gefn
Llethrau ffordd Talerddig yn llithrig i cerddwyr		G Mitchell i gwneud ymholiadau
Tyllau ar y ffordd i Gelli		

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Disgwylir cadarnhad am arwyneb newydd i'r ffordd trwy Pont Bel

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Talerddig		Angen un wrth troiad i Llanerfyl

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Llythyr gan Cyngor Tref Trallwng yn tanlinellu pryderon ynglyn a 'Public Spaces Protection Orders' sydd wedi dod i ben. G Mitchell i gwneud ymholiadau
- Llythyr gan Cyngor Cymuned Carno ynglyn ag uchder Pont rheilffordd ym Mhontdolgoch yn ymharu ar llwythi cerbydau mawr. Clerc wedi ysgrifennu llythyr yn adlewyrchu pryderon lleol. Cafwyd ymateb gan Russell George AS yn dweud ei fod mewn trafodaeth gyda Network Rail a Llywodraeth Cymru ynglyn a'r mater
- Diweddariad yr ymgynghoriad ar y Parc Cenedlaethol Glyndŵr arfaethdig – fydd rhai yn gweld mantesion y statws (ee: busnesau twristiaeth) ac eraill yn gweld rhwystredigaethau gweinyddiaeth ychwanegol ar pob math o ddatblygiadau
- Cofnodion Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed

- Gwahoddiad i Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar y 21ain o Ionawr 2026
- Llythyr gan Llywodraeth Cymru ynglyn a gofal cleifion dros y ffiniau i Loegr

Cynllunio – Dim

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 25/11/25

Cyfrif Cyfredol	£5,126.27
Cyfrif Cadw	£3,008.79
Cyfanswm	£8,135.06
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£8,135.06

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
03/12/25	Cyflog y Clerc – Tachwedd	£417.60	Cytynwyd
03/12/25	Treth ac NI ar cyflogau - Tachwedd	£104.40	Cytynwyd
03/12/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Tachwedd	£120.00	Cytynwyd. Mae'r costau yma yn cael ei talu gan nawdd o Menter Iaith Maldwyn
03/12/25	Joanna Whiteway – Glanhau'r toiledau - Tachwedd	£210.00	Cytynwyd
03/12/25	E.ON Next – Tachwedd	£27.95	Cytynwyd
03/12/25	Urdd Gobaith Cymru – Cyfraniad tuag at Eisteddfod Maldwyn	£100.00	
03/12/25	Gloversure – Costau'r wefan	£174.00	Cytynwyd
03/12/25	Hafren Dyfrdwy	£1309.14	Clerc i astudio'r manylion yn fwy fanwl

- Rhaid danfon anfoneb i Powys am nawdd tuag at costau'r toiledau ym mis Ionawr 2026

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- R Ashton – Angen arwydd 'Concealed Entrance' wrth troiad Pentremawr
- S Reast – Rhai goleuadau yn Nolfach yn gamweithredol
- S Reast – Draen yn Bont angen dadbloio
- B Jones – Golau ar ffordd Pandy yn gamweithredol
- G Davies – Mieri yn mynwent Eglwys Llan
- E Lewis – Blwch rhoddion i'r toiledau
- F Cauley – Poster i am cadw cŵn ar tennynau
- G Davies – Datblygiadau yn Ngwern y Bwlch
- R Ashton – Llifogydd ar y B4518 wrth Maesgwian

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar Nos Fercher, 7fed mis Ionawr 2026.

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbryn-mair